4.168

# I FECHGYN YR YSGOL RAMMADEGOL, EMLYN.

Mae Ysgol Tref Emlyn
  Yn uchel mewn clod,
Mae llawer o'i bechgyn
  Am gyraedd rhyw nod;
Mae ganddi ddoeth athraw,
  Talentog, dinam ,
Yn teimlo dros fechgyn
  Sy'n ofni'r "exam."

Chwi fechgyn yr Ysgol ,
  Mae'n llawn bryd deffroi,
Gelynion ein hen iaith
  Sy'n awr yn crynhoi;
Yn llwyr benderfynu
  I'w chael hi dan dra'd,
Os na wneir rhyw ymdrech
  I attal y brad.

Pan fyddoch yn dysgu
  'R hen ieithoedd yn awr,
Gofalwch am gadw
  Yr hen iaith ar glawr;
Ardderchog yw'n hiaith,
  Mawreddog yw'n gwlad,
Mae'n llawn o enwogion
  Heb ddichel na brad.

Chwi fechgyn talentog,
  Gofalwch mewn pryd
Am beidio cymmysgu
  Yr ieithoedd ynghyd;
Os Cymraeg fyddo'r iaith
  Fyddo genych mewn llaw,
O cedwch hi'n bur
  Heb ei llusgo mewn baw.

Ardderchog yw Groeg,
  Ac hefyd Hebraeg;
Iaith gadarn yw Lladin,
  Er nad yw'n Geltaeg;
Cymmysglyd yw'r Saesoneg,
  Yn d'rysu pob dyn,
O'r Sais hyd y Cymro,
  'Does wahaniaeth pa un.

Chwi fechgyn, gofalwch
  Am barchu eich iaith,
Peidiwch aros ar hyny—
  Mae rhagor o waith,
Sef dysgu'r holl ieithoedd
  Ddefnyddir gan ddyn,
Fel byddo'ch cyfeiriad
  At achub pob ~~dyn.~~

D. H. Davies (gynt Ficer Cenarth.)

Mawrth 2il, 1909.

X20522 1733